CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
18 Hydref 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, P Ellis, C McGregor, D ap Rhobert, W Williams, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng E Williams, A Wyn	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 27.09.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D ap Rhobert yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Mynwent Llanddyfnan (tap) – Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda phlymwyr eraill
4.2	Llwybrau cyhoeddus - Mae'r Cynghorydd E Williams yn delio â'r mater hwn. Cytunwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf
4.3	Pencampwr Iaith - Cytunwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf
4.4	Gwair Maes y Coed - Mae'r glaswellt wedi'i dorri yn unol â'r contract. Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Pwyllgor Safonnau
5.1	Mae Cylchlythyr y Pwyllgor Safonau wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Yn dilyn ceisiadau i eistedd ar y Pwyllgor Safonau i gynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned, cytunodd y cyngor i bleidleisio dros y Cynghorwyr Margaret Thomas a Gwawr Evans Jones
	Llofnod…….Cadeirydd 15.11.22

6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Ceisiadau am gyfethol** - Mae'r Clerc wedi derbyn tri chais: Rob Hughes, Huw Davies a Sion Jones. Cytunwyd i dderbyn y tri cais.
6.2	**PC Howell Owens -** PC Owens yw'r "Community Beat Manager" newydd yr ardal. Penderfynwyd ei wahodd i'r cyfarfod nesaf.
6.3	**Rhys Williams** – Dyddiadau torri Maes y Coed: 21.04.22, 08.06.22, 29.09.22 (gweler 4.4)
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Eisteddfod Gadeiriol y Talwrn. Mae y Clerc wedi derbyn cais am rodd tuag at yr Eisteddfod flynyddol. Cytunwyd i gynnig £300 - Cyng D ap Rhobert yn cynnig a'r Cyng P Ellis yn eilio.
7.2	Adolygiad ariannol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Y Gofeb - Dywedodd y Cyng A Williams fod ei gwr yn barod i dacluso/paentio rheiliau'r Gofeb cyn Sul y Cofio. Gofynnodd am wirfoddolwr i helpu. Dywedodd y Cyng Ellis y byddai'n helpu ac y byddai hefyd yn gofyn am wirfoddolwyr ar Facebook.
8.2	Cais cynllunio Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch. Dywedodd y Cynghorydd A Williams fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeiswyr. Dywedodd y Cyng Ellis y bydd y cais yn cael ei drafod gan y Cyngor Sir yn ystod Rhagfyr neu Ionawr
8.3	Tyfiant wrth ymyl Bodlondeb - Dywedodd y Cyng ap Rhobert fod gwaith ardderchog wedi ei wneud
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Cyflwr ffyrdd ardal Talwrn
9.2	Gor-yrru Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 15.11.22